Pa wybodaeth rydym yn ei gael?

Mae'n rhaid i'r Awdurdod Lleol ac ysgolion gael gwybodaeth i sicrhau eich bod yn ddiogel ac i helpu i wneud yn siŵr eich bod yn cael lefel dda o addysg.

Mae'r wybodaeth rydym yn ei gael amdanoch yn cynnwys:

- manylion personol fel eich enw, cyfeiriad, dyddiad geni
- eich presenoldeb ac unrhyw gamau i drin problemau
- unrhyw gefnogaeth ychwanegol sydd arnoch ei angen i'ch helpu i ddysgu
- unrhyw gefnogaeth rydych yn ei gael gan wasanaethau gofal cymdeithasol
- canlyniadau eich profion ac arholiadau ysgol.

Mae'r wybodaeth hon yn ein helpu i wybod pwy ydych a beth sydd arnoch ei angen.

Beth rydym yn ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Rydym yn defnyddio gwybodaeth mewn gwahanol ffyrdd.

Rydym yn ei ddefnyddio i'ch cadw'n ddiogel

Rydym yn cadw gwybodaeth fel:

- enw rhieni neu ofalwyr a manylion cysylltu
- anghenion meddygol.

Mae hyn yn helpu i sicrhau eich bod yn ddiogel tra eich bod yn yr ysgol.

Rydym yn ei astudio

Rydym yn astudio'r wybodaeth i:

- sicrhau eich bod yn cael addysg dda
- ddeall a oes arnoch angen cymorth ychwanegol
- diogelu ac amddiffyn.

Os byddwn yn rhannu eich gwybodaeth

Os byddwn yn rhannu eich gwybodaeth bersonol, byddwn yn dweud gyda phwy rydym yn ei rannu a byddwn yn ei gadw'n ddiogel.

Ni fyddwn ond yn darparu manylion personol i sefydliadau a restrwyd yn y rheoliadau gwybodaeth. Mae'r rhestr yn cynnwys lleoedd fel:

- ysgol newydd
- Llywodraeth Cymru
- Gyrfaoedd Cymru fel eich bod yn cael yr hyfforddiant cywir ar gyfer gwaith.

Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth nad yw'n cynnwys gwybodaeth bersonol. Rydym yn ei rannu gyda sefydliadau rydym wedi gofyn iddynt ei astudio ar ein rhan. Maent yn gwneud hyn:

- er enghraifft i'n helpu i gynllunio ar gyfer y dyfodol
- i ddilyn rheolau
- am gyfnod gosodedig
- yna mae'n rhaid iddynt ddinistrio'r wybodaeth.

Bydd yr ysgol a'r Awdurdod Lleol yn cadw a dinistrio'r wybodaeth yn unol â'u hamserlen cadw (y cyfnod rydym yn cadw eich data), gellir cael y rhain trwy'r manylion cysylltu ar y dudalen gefn.

Cyfraith newydd

Mae cyfreithiau newydd ynghylch sut ydym yn cadw gwybodaeth bersonol yn ddiogel. Mae'n rhoi mwy o reolaeth i chi dros eich gwybodaeth bersonol ac unrhyw un sy'n casglu gwybodaeth bersonol.

Yn 2018, bydd cyfraith newydd o'r enw:

Rheoliadau Amddiffyn Data Cyffredinol (Rh.A.D.C.).

Mae'r rhoi mwy o reolaeth i chi dros eich gwybodaeth.

Mae'n gwneud yn siŵr bod yn rhaid i unrhyw un sy'n casglu gwybodaeth yn gorfod:

- esbonio pam fod arnynt ei angen
- bod yn glir ynghylch beth maent yn mynd i'w wneud ag ef
- sicrhau eu bod yn cadw'r data'n ddiogel
- ei ddinistrio pan na fo arnynt ei angen mwyach.

Eich Gwybodaeth

Mae'r Awdurdod Lleol ac ysgolion yn casglu gwybodaeth.

Pethau fel:

- faint o ddisgyblion sydd ym mhob ysgol
- cofnodion presenoldeb
- canlyniadau arholiad a phrofion
- faint o blant sy'n cael eu haddysgu heb law yn yr ysgol
- beth mae pobl ifanc yn dewis ei wneud ar ôl cyrraedd 16 oed.

Mae'r Awdurdod Lleol ac ysgolion hefyd yn casglu gwybodaeth bersonol.

Mae gan bawb wybodaeth bersonol:

- eich enw
- cyfeiriad
- dyddiad geni
- enwau rhieni neu ofalwyr.

Mae hyn yn helpu pobl wybod pwy ydych a beth sydd arnoch ei angen.

Eich hawliau

Mae gennych hawl i:

- weld unrhyw wybodaeth bersonol sydd gennym amdanoch
- gofyn i ni newid unrhyw wybodaeth rydych yn meddwl sy'n anghywir
- gofyn i ni beidio rhannu eich gwybodaeth, ond nid pan fo angen i ni gael cefnogaeth i chi neu i'ch cadw'n ddiogel
- gofyn i ni dynnu gwybodaeth oddi ar ein systemau.

Gallwch gwyno os ydych yn meddwl nad ydym yn parchu eich hawliau.

Mae Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth ar gael i helpu.

Diolch am ddarllen hwn.

Os oes gennych eisiau gwybod mwy, cysylltwch â:

Ysgol Craig y Don
Clarence Dr, Conwy,
Llandudno
LL30 1TR
01492 878906

Manylion yr ALl
Andrew Nixon—Uwch Swyddog Busnes a MIS
01492 575587
mis@conwy.gov.uk

Gallwch hefyd gysylltu â'r:
Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF



Eich gwybodaeth

Pan fod ar yr Awdurdod Lleol a'r ysgol ei angen a beth ydym yn ei wneud gydag ef